



**BWRDD**

**DIOGELU OEDOLION**

**GOGLEDD CYMRU**

**NEGSEUON ALLWEDDOL**

**O'r cyfarfod a gynhaliwyd**

**Dydd Mawrth 15 Ionawr 2019**

- Mae'r Ymgynghorwyr/Hwyluswyr sy'n gweithio gyda'r Bwrdd ar ran Llywodraeth Cymru wedi cwblhau eu harsylwadau ac ymgynghoriad ac wedi darganfod bod y bwrdd yn gweithio'n dda ac yn gwella. Cyflwynwyd eu hadroddiad drafft i'r Bwrdd a disgwylir y fersiwn terfynol yn fuan.
- Cynhaliwyd trafodaethau manwl ynglŷn ag aillysgrifennu'r Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol sydd wedi amlygu risgiau sylweddol i Fyrddau Diogelu Gogledd Cymru. Bydd Grwpiau Polisi a Gweithdrefnau Byrddau Oedolion a Phlant yn parhau i roi adborth ar y cyd ar bob pennod o'r gweithdrefnau wrth iddynt gael eu drafftio.
- Trefnwyd Sesiwn Datblygu Busnes ar gyfer diwedd Ionawr i drafod blaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer 2019/20 ac edrych ar opsiynau cyllideb. Cafodd y Cynllun Busnes ar gyfer 2018/19 ei ddiweddarau a chytunwyd arno gan y Bwrdd a thrafodir ymhellach yn y sesiwn datblygu.
- Cynhaliwyd gweithdy 'Oedolyn mewn Perygl' ym mis Rhagfyr. Roedd nifer dda yn bresennol yn y digwyddiad a'r adborth yn dda iawn. Yn ystod y digwyddiad cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â Rôl Ymarferydd Arweiniol a chafwyd ymholiadau a gwnaed penderfyniadau, hefyd y rôl Eiriolaeth.